# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 10 Mai 2023

Yn bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd Mrs M Wiggins.

Yn bresennol (o bell)
Dr M Havard, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd C Williams BEM.

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 11.40am]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Dr SL Hancock.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd Dr R Plummer bod ganddi fuddiant personol cyffredinol o ran ei Haelodaeth o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife, a buddiant penodol yn Adroddiad 16/23.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Nodwyd cynnwys y Log Gweithredu. Yn ogystal hysbyswyd yr Aelodau bod Cyfrifon Croeso Sir Benfro bellach wedi'u dosbarthu, a bod datganiad o ddiddordeb wedi dod i law mewn mynychu Cynhadledd Europarc, a bod lle i un arall yn dal ar gael. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cadeirydd bod cyfarfod cyntaf y Gweithgor Ariannu Toiledau wedi'i gynnal a bod y Gweithgor yn ceisio gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Sir Penfro. Hefyd dywedodd y Prif Weithredwr, mewn perthynas â Chofnod 17, na fu angen amrywio'r safonau ariannol, a bod y broses gaffael arferol wedi'i dilyn.

5 . **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

- Roedd y cyfarfod a ohiriwyd yn flaenorol rhwng Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Parciau Cenedlaethol Cymru a'r Gweinidog dros Newid Hinsawdd bellach wedi'i gynnal.
- Bu’n mynychu lansiad Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a mabwysiadu eu brand newydd.
- Bu’n mynychu’r Diwrnod Astudio yn Dale; diolchwyd i’r swyddogion am eu mewnbwn gwerthfawr.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi cwblhau prynu ardal y Twyni ar Draeth Trefdraeth ac y byddai arwyddion yn cael eu gosod y diwrnod hwnnw yn nodi y byddai mynediad i gerbydau i'r traeth yn gyfyngedig i'r gwasanaethau brys a'r rhai sydd angen mynediad hanfodol. Byddai'r cynllun cyfathrebu a baratowyd yn awr yn cael ei roi ar waith, a chadarnhaodd y byddai hyn yn cynnwys cysylltu â Chyngor Cymuned Nanhyfer.

**Nodwyd.**

6. **Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau’r Awdurdod i’r Aelodau eu hystyried/ er gwybodaeth:

(i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2023;
(ii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023;
(iii) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023;
(iv) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023.

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau i'r Aelodau nad oedd wedi cwblhau eu Hadolygiad Datblygu Personol eto i wneud hynny, gan y byddai hyn yn galluogi i'r cynllun hyfforddi gael ei gwblhau.

O ran y Gofrestr Risg a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai gweithdy pellach ar risg yn cael ei drefnu ac y byddai'r Gofrestr yn cael ei chyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

7. **Polisi Cynllunio Cymru ynghylch Budd Net i Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a Datblygiadau Mawr mewn Parciau Cenedlaethol**
Dywedwyd bod newidiadau wedi'u targedu wedi'u cynnig i gryfhau ac egluro Polisi Cynllunio Cymru o ran sicrhau budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Hefyd cynigiwyd bod gwaith golygu yn cael

ei wneud mewn perthynas â datblygiadau mawr mewn Parciau Cenedlaethol.

Croesawyd y cynigion ar y cyfan, ac roedd ymateb yr Awdurdod oedd yn dod i'r amlwg wedi'i nodi yn yr adroddiad. Dywedwyd mai'r gobaith oedd cyflwyno ymateb ar y cyd gyda'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru. Fodd bynnag roedd croeso hefyd i fewnbwn yr Aelodau; gofynnwyd am sylwadau erbyn 17 Mai er mwyn caniatáu i ymateb terfynol gael ei gyflwyno cyn 31 Mai. Dywedwyd y byddai'r ymateb yn cael ei gytuno gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod cyn ei gyflwyno.

Roedd yr Aelodau yn cymeradwyo'r ymateb oedd yn dod i'r amlwg, ond gofynnwyd am i'r ymateb gael ei gryfhau o ran yr angen i ddiweddaru Nodyn Cyngor Technegol 5, Egwyddor Sandford, ardaloedd morol gwarchodedig, lliniaru ar y safle, ac effaith Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar adnoddau'r Awdurdod. O ran effaith Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, awgrymodd yr Aelodau bod angen cynyddu'r ffioedd, a dywedodd y Cyfarwyddwr bod Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am adolygu'r ffioedd cynllunio yn fwy cyffredinol. Awgrymwyd y byddai cydweithio â sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol eraill megis yr RSPB yn ddefnyddiol. Dywedodd sawl Aelod y byddent yn anfon sylwadau manwl, a chytunodd y swyddog i ymgorffori'r sylwadau hynny a'r pwyntiau eraill a wnaed yn y cyfarfod, yn yr ymateb. O ran y pwyntiau a wnaed ynghylch iawndal am golli coed, dywedodd y swyddog y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud yn y dyfodol i asesu a oedd colli coed o ganlyniad i'r Clefyd Coed Ynn wedi cael effaith ar gymeriad y dirwedd.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd**:

a) cymeradwyo'r ymateb oedd yn dod i'r amlwg i'r ymgynghoriad ar Bolisi Cynllunio Cymru ynghylch budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a Datblygiadau Mawr mewn Parciau Cenedlaethol a nodir yn yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys sylwadau ychwanegol yr Aelodau a wneir yn ysgrifenedig ac yn y cyfarfod; a
b) rhoi pŵer dirprwyedig i'r Rheolwr Polisi Strategol gyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru yn amodol ar gytundeb y Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod.

## 8. Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn nodi'r modd yr oedd wedi cyflawni Safonau'r Gymraeg yr oedd yn rhaid iddo gydymffurfio â hwy wrth gyflawni ei waith, ac roedd copi o'r adroddiad ger eu bron i'w gymeradwyo.

Nodwyd yn y cyfarfod bod gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg yr Aelodau wedi'i darparu fel a ganlyn:

| Lefel | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mynediad | 5 | 28% |
| Sylfaen | 1 | 5.5% |
| Canolradd | 0 | 0% |
| Uwch | 1 | 5.5% |
| Hyfedr | 3 | 17% |
| Dim sgiliau | 8 | 44% |

Dywedodd yr Aelodau bod gwall teipograffyddol ym mharagraff 1.4 o'r adroddiad Cymraeg, a dywedwyd bod angen croesgyfeiriadau mewn perthynas â'r gŵyn ynghylch arwyddion Cymraeg ym mharagraff 2.8.1 a'r swyddi a hysbysebir bod y Gymraeg yn hanfodol ym mharagraff 4.9. Barnwyd hefyd bod angen mwy o wybodaeth am effaith polisïau o ran asesiadau effaith. Y gobaith hefyd oedd y gallai'r adroddiad yn y blynyddoedd i ddod fod yn fwy clodfawr o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod.

Gofynnodd un Aelod, yn Gymraeg, a ellid ystyried cael cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, er mwyn caniatáu gallu cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai'n agored i ymateb i gais o'r fath, ac awgrymodd Aelodau eraill y gellid trafod y mater pan fyddai Strategaeth yr Awdurdod ar y Gymraeg yn dod gerbron yr Awdurdod yn y misoedd nesaf.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amodol ar y diwygiadau a nodir uchod**.**

**9. Adnewyddu Prydles Stack Rocks a Sain Gofan**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y telerau ar gyfer adnewyddu les Stack Rocks a Sain Gofan wedi'u cytuno â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod fis Awst 2018. Serch hynny, am resymau oedd yn gyfan gwbl y tu allan i reolaeth yr Awdurdod, nid oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gallu dogfennu adnewyddu'r brydles bryd hynny a dim ond yn ddiweddar y dychwelwyd at y swyddogion i gadarnhau eu parodrwydd i wneud hynny yn awr.

Yr unig newid sylweddol i'r telerau amlycaf (fel y'u cymeradwywyd yn flaenorol gan APC) yr oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei geisio yn awr oedd lleihau cyfnod y brydles newydd o 21 mlynedd i lawr i 10 mlynedd. Roedd swyddogion o'r farn bod y cyfnod cytundebol gostyngol hwn o fantais i'r Awdurdod.

Oherwydd y cyfnod oedd wedi mynd heibio ers i'r APC ystyried y mater hwn ddiwethaf a'r newid sylweddol a gynrychiolir gan y tymor cytundebol gostyngol, ystyriwyd mai priodol oedd cyflwyno’r mater hwn unwaith yn rhagor gerbron yr Aelodau i'w ystyried.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Ystadau y byddai'r cytundeb 10 mlynedd yn cychwyn o'r dyddiad yr arwyddwyd y brydles.

Ar gynnig y Cynghorydd P Morgan, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **penderfynwyd** cytuno ar adnewyddu’r brydles ar yr un telerau ag y nodir yn adroddiad APC Rhif 35/18, yn amodol yn unig ar leihau’r cyfnod cytundebol o 21 mlynedd i lawr i 10 mlynedd.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 heb eu diwygio. |